OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1001 (Cy. 204)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Medi 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Medi 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Hydref 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018 a daw i rym ar 10 Hydref 2018.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dyddiad prisio

**2.** 1 Ebrill 2019 yw'r diwrnod a bennir fel y diwrnod y mae'n rhaid cyfeirio ato i bennu gwerthoedd ardrethol hereditamentau annomestig at ddibenion y rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog pan fyddant yn cael eu llunio nesaf ar gyfer Cymru ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

### Dirymu

**3.** Mae Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014(**3**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 1988 p. 41.
(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac fe'i trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2014/2917 (Cy. 297)

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

12 Medi 2018

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yn rhinwedd adrannau 41(2) a 52(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), sydd i'w darllen ar y cyd â Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Gwneud Rhestrau) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1370 (Cy. 139)) a wneir o dan adran 54A o Ddeddf 1988, mae rhestrau ardrethu annomestig ar gyfer Cymru i'w llunio ar 1 Ebrill 2017 a phob pumed flwyddyn wedi hynny.

Mae paragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 yn darparu, at ddibenion llunio rhestrau o'r fath, fod gwerth ardrethol hereditament annomestig i'w bennu drwy gyfeirio at y diwrnod y mae rhaid llunio'r rhestrau neu ar unrhyw ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2019 fel y diwrnod hwnnw at ddibenion llunio'r rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog nesaf pan fydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym.

Mae erthygl 3 yn diddymu Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2917 (Cy. 297)), a oedd yn pennu'r diwrnod yr oedd rhaid cyfeirio ato o ran yr eiddo a oedd i'w brisio at ddibenion y rhestrau a luniwyd ar 1 Ebrill 2017. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth y Gangen Polisi Trethi Lleol, yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.